


Datganiad Offa's Dyke
Cadwraeth Conservation
Clawdd Offa Statement



Menter Clawdd Offa, Gorffennaf 2000

Testun

Casglwyd ynghyd a'i olygu gan Ian Bapty ar ran Pwyllgor Ymgynghorol Clawdd Offa.

Menter Clawdd Offa

Cefnogir Menter Clawdd Offa gan y mudiadau canlynol, a gynrychiolir ar Bwyllgor Ymgynghorol Clawdd Offa:

Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cadw: Welsh Historic Monuments
Countryside Agency
Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor Sir Ddinbych
Cyngor Sir y Fflint
English Heritage
Cyngor Swydd Gaerloyw
Cyngor Swydd Henffordd
Gwasanaeth Rheoli Llwybr Clawdd Offa
Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Cyngor Swydd Amwythig
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys



Am wybodaeth bellach, cysylltwch ag:

Ian Bapty
Swyddog Rheoli Archaeolegol Clawdd Offa
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys
7a Stryd yr Eglwys Y Trallwng
Powys
SY21 7DL

ffôn 01938 553670
e-bost IanBapty@cpat.org.uk
www.cpat.org.uk/offa/

Cymorth ariannol

Ariennir swydd Swyddog Rheoli Llwybr Clawdd Offa ar y cyd gan Cadw: Welsh Historic Monuments a English Heritage.



Offa's Dyke Initiative, July 2000

Text

Compiled and edited by Ian Bapty on behalf of the Offa's Dyke Advisory Committee.

Offa's Dyke Initiative

Offa's Dyke Initiative is supported by the following organisations who are represented on the Offa's Dyke Advisory Committee:

Brecon Beacons National Park
Cadw: Welsh Historic Monuments
Clwyd-Powys Archaeological Trust
Countryside Agency
Countryside Council for Wales
Denbighshire County Council
English Heritage
Flintshire County Council
Gloucestershire County Council
Herefordshire County Council
Offa's Dyke Path Management Service
Shropshire County Council
Wrexham County Borough Council

For further information contact:

Ian Bapty
Offa's Dyke Archaeological Management Officer
Clwyd-Powys Archaeological Trust
7a Church Street Welshpool
Powys
SY21 7DL

tel 01938 553670
e-mail IanBapty@cpat.org.uk
www.cpat.org.uk/offa/

Financial assistance

The Offa's Dyke Archaeological Management Officer's post is jointly funded by Cadw: Welsh Historic Monuments and English Heritage.

*Datganiad Offa's Dyke
Cadwraeth Conservation
Clawdd Offa Statement*

*'ac yna perodd Offa i glawdd gael 'and then Offa had a dyke made
i godi . . . o'r enw Clawdd Offa . . . that was called Offa's Dyke
o'r dydd hwnnw hyd heddiw' from that day to this'*



Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	3
Cyflwyniad	7
Clawdd Offa heddiw	10
Hanes Clawdd Offa	15
Arwyddocâd Clawdd Offa	23
Achosion erydiad	25
Cadwraeth Clawdd Offa	29
Egwyddorion cadwraeth	33
Fframweithiau rheoli	36
Casgliadau	39
Ffynonellau	40

Contents

Executive Summary	3
Introduction	7
Offa's Dyke today	10
The history of Offa's Dyke	15
The significance of Offa's Dyke	23
Causes of erosion	25
Conserving Offa's Dyke	29
Conservation principles	33
Management frameworks	36
Conclusions	39
Sources	40



Crynodeb Gweithredol

Executive Summary

Diben y Datganiad Cadwraeth

1 Ffin o bridd rhyw 1200 mlwydd oed yw Clawdd Offa. Mae'n rhedeg am oddeutu 129 km ar hyd y gororau. Mae'r cyfuniad o faint daeryddol, sensitifrwydd archaeolegol a chyd-destun tirwedd Clawdd Offa yn golygu bod cadwraeth yn sialens gymhleth, tymor hir.

2 Cam cyntaf yn y dasg o lunio ateb i'r sefyllfa yw'r Datganiad Cadwraeth yma. Mae'n cynnig arfarniad o gymeriad a phwysigrwydd Clawdd Offa a'r egwyddorion cadwraeth fydd yn helpu i ddiogelu'r clawdd ar gyfer y dyfodol.

3 Mae'r sefydliadau craidd sy'n ymwneud â rheoli Clawdd Offa yn cydnabod y Datganiad Cadwraeth hwn yn ffurfiol. Fe fydd y datganiad yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ac i ysgogi ymgynghoriad pellach, a'r prosesau datblygu prosiectau a chodi arian angenrheidiol er mwyn sicrhau cadwraeth parhaus yr henebyn hwn o bwys cenedlaethol.

Arwyddocâd Clawdd Offa

4 Clawdd Offa yw henebyn archaeolegol hwyaf Prydain. Mae'n ymestyn am 129 km ar hyd y gororau o Dreuddyn (ger Wrecsam yng ngogledd ddwyrain Cymru) i Glogwyni Sedbury (ar aber Afon Hafren yn ne Sir Gaerloyw). Arglawdd hyd at 8 metr o uchder gyda ffos ddofn ar yr ochr orllewinol sydd i'w gweld heddiw.

5 Credir mai Offa, Brenin teyrnas Eingl-Sacsonaidd y Mers yn yr 8fed ganrif, oedd yn gyfrifol am godi'r gwrthglawdd hynod yma. Byddwn yn dehongli hyn fel rheol fel ffin a rhwystr amddiffynnol rhwng y Mers a'r teyrnasoedd Prydeinig (Cymreig) annibynnol yn yr ardal sydd bellach yn cael ei galw'n Gymru.

6 Mae Clawdd Offa yn dirnod amlwg ac unigryw yn yr ardal, a defnyddir ef bellach i nodi ffin gyfoes rhwng y ddwy wlad, rhwng plwyfi, rhwng caeau, neu rhwng tiroedd gwahanol berchnogion. Ysgogodd y clawdd y penderfyniad i greu Llwybr Clawdd Offa (un o brif lwybrau troed hir 'Llwybrau Cenedlaethol' Prydain), ac mae'r llwybr yn dilyn 55km y gwrthglawdd yn uniongyrchol.

7 Mae Clawdd Offa yn un o'r henebion archaeolegol pwysicaf yng Ngorllewin Ewrop, ac yn dystiolaeth unigryw i darddiad y Cymry a'r Saeson. Oherwydd ei werth presennol fel amwynder a'i werth diwylliannol, ecolegol a gweledol, mae hefyd yn rhan allweddol o dirwedd gyfoes y Gororau. Yn arbennig, mae Clawdd Offa yn:

- *henebyn sy'n cysylltu cymunedau heddiw â gwreiddiau diwylliannol a hanesyddol y Cymry a'r Saeson mewn dull real ac unigryw, ac sy'n dystiolaeth hanfodol wrth geisio*

Purpose of the Conservation Statement

1 Offa's Dyke is a 1200-year-old earthen boundary which runs for 129 km through the borderland of Wales and England. The combined geographical scale, archaeological sensitivity, and modern landscape context of Offa's Dyke means that its conservation is a complex long-term challenge.

2 This Conservation Statement is a first step in addressing this situation. It provides an initial appraisal of the character and importance of Offa's Dyke and the conservation principles which will help to preserve the dyke for the future.

3 The Conservation Statement has been formally endorsed by the core organisations involved in the management of Offa's Dyke. It will be used to support and initiate the further consultation, project development and fund-raising processes necessary to realise the ongoing conservation of this nationally important ancient monument.

Significance of Offa's Dyke

4 Offa's Dyke is Britain's longest archaeological monument, stretching for 129 km through the Welsh borders from Treuddyn (near Wrexham in north east Wales) to Sedbury Cliffs (on the Severn estuary, in southern Gloucestershire). The surviving dyke typically consists of a bank which can be up to 8 metres high associated with a deep western ditch.

5 This extraordinary earthwork is believed to have been built in the 8th century AD by King Offa of the ancient Anglo-Saxon kingdom of Mercia and is usually interpreted as a boundary and defensive barrier between Mercia and the independent British (Welsh) kingdoms then existing in what is now Wales.

6 Offa's Dyke today is a prominent and locally distinctive landmark often serving as a modern national, parish, ownership or field boundary. The creation of the Offa's Dyke Path (one of Britain's premier 'National Trail' long distance footpaths) was inspired by the dyke, and the route directly follows 55 km of the earthwork.

7 Offa's Dyke is one of the most important archaeological monuments in Western Europe, and unique evidence of the origins of the Welsh and English people. Via its contemporary cultural, ecological, visual and amenity value, it is also a key part of today's Marches landscape. In particular, Offa's Dyke is:

- *a monument which tangibly and uniquely connects present day communities with the cultural and historical origins of the Welsh and English peoples, and is a crucial*



deall y gwreiddiau hynny

- *cyflawniad technegol a threfniadol hynod, o'r math a'r maint daearyddol heb ei ail yn Ewrop, yn ei gyfnod ei hunan nac yn y 1000 mlynedd dilynol hyd at y Chwyldro Diwydiannol*
- *henebyn sydd, yng nghyd-destun deall hanes Eingl-Sacsonaidd, yn rhoi cipolwg archaeolegol allweddol ar gyfraniad Offa a theyrnas y Mers i ddatblygiad cyfnod diweddarach ym Mhrydain*
- *nodwedd gyfeiriadol archaeolegol unigryw yn nhirwedd leol y Gororau*
- *nodwedd archaeolegol unigryw o'r dirwedd sy'n gwneud cyfraniad gweledol a ffisegol sylfaenol i gymeriad a nawws benodol yr ardal o gwmpas*
- *ffin gyfoes bwysig a rhan annatod o'r dirwedd amaethyddol sy'n cael ei gweithio; dyma amgylchedd pennaf y clawdd*
- *llain o dirwedd wledig ddigyffro sydd o werth pwysig o safbwynt bywyd gwyllt ac ecoleg*
- *atyniad pwysig i ymwelwyr â'r Gororau, gyda gwerth economaidd arwyddocaol i gymunedau lleol (yn gysylltiedig â Llwybr Clawdd Offa yn bennaf).*

Problemau Cadwraeth

8 Mae Clawdd Offa'n wynebu llawer o bwysau o ran ei barhad yn y tymor hir. Cafodd llawer ohono ei ddinistrio neu ei ddifrodi'n ddifrifol dros y canrifoedd ac mae hyn yn parhau hyd heddiw. Mae arolygon diweddar yn dangos bod 30% o'r clawdd yn erydu ar hyn o bryd.

9 Mae materion amaethyddol fel gorburi ac aredig, anawsterau sy'n gysylltiedig ag ymwelwyr â Llwybr Clawdd Offa, tyllau a gloddiwyd gan anifeiliaid a datblygiadau modern ymhlith y rhesymau mwyaf cyffredin am yr erydu.

10 I sicrhau cadwraeth gynaliadwy ar Glawdd Offa, rhaid deall perthynas gymhleth y clawdd â'i gyd-destun yn y dirwedd gyfoes, yn ogystal â cheisio datrys y problemau ymarferol hyn yn uniongyrchol.

Egwyddorion Cadwraeth

11 Rhaid seilio cadwraeth Clawdd Offa ar egwyddorion eglur

piece of evidence in understanding those origins

- *a remarkable technical and organisational achievement of a kind and geographical scale which was without equal in Europe either in its own time or in the following 1000 years up to the Industrial Revolution*
- *a monument which, in the context of understanding British history, gives a key archaeological insight into the contribution of Offa and the Anglo-Saxon kingdom of Mercia to the later development of Britain*
- *a unique archaeological reference point in the local Marches landscape*
- *a highly distinctive landscape feature which makes a fundamental visual and physical contribution to the particular character and feel of its local surroundings*
- *an important modern boundary and an integral part of the actively managed agricultural landscape which it mostly occupies*
- *a largely undisturbed rural landscape corridor which has important wildlife and ecological value*
- *an important Marches visitor attraction with significant economic value to local communities (linked primarily to the Offa's Dyke Path)*

Conservation Problems

8 Offa's Dyke faces many pressures on its long-term survival. Over the centuries, much of the monument has been destroyed or seriously damaged, and that process goes on today. Recent surveys have indicated that 30% of the dyke is currently suffering active erosion.

9 Common identified causes of erosion range from agricultural issues, such as over-grazing and ploughing, to visitor access linked to the Offa's Dyke Path, digging by burrowing animals and modern development.

10 The sustainable conservation of Offa's Dyke involves not just directly addressing these practical problems, but also understanding the complicated relationship of the dyke to its modern landscape context.

Conservation Principles

11 The conservation of Offa's Dyke must be based on clear



sy'n adlewyrchu dealltwriaeth lawn o arwyddocâd yr henebyn ac yn diffinio sail glir ar gyfer dull integredig o'i reoli yn y tymor hir. Dyma'r egwyddorion cadwraeth a awgrymwn:

- sicrhau bod cynigion rheoli Clawdd Offa yn gwarantu amddiffyniad cynaliadwy'r gwrthglawdd, ac yn ystyried yr holl agweddau ar arwyddocâd y clawdd
- ceisio datblygu partneriaeth a chonsensws ymhlith yr holl sefydliadau, boed yn gyhoeddus neu'n breifat, sy'n ymwneud â rheoli Clawdd Offa
- cysylltu cadwraeth Clawdd Offa yn y tymor hir yn ymarferol â phrosesau cyfredol a pharhaus o reoli tir
- datblygu amddiffyniad tirwedd Clawdd Offa yn ogystal â'r henebyn ffisegol ei hun
- hwyluso gwell gwybodaeth ar gyfer rheoli Clawdd Offa trwy gyfrwng dealltwriaeth archaeolegol a hanesyddol o'r henebyn
- hybu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o Glawdd Offa fel nodwedd o bwys hanesyddol a chyfoes
- annog cyfranogiad cyhoeddus o safbwynt rheoli Clawdd Offa
- defnyddio'r adnoddau cyhoeddus a phreifat i'r eithaf i wella a rheoli Clawdd Offa.

Fframweithiau Rheoli

12 Mae llawer o Glawdd Offa yn cael ei amddiffyn yn statudol fel Henebyn Rhestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae Menter Clawdd Offa yn gweithredu cynlluniau cadwraeth ymarferol ar y clawdd ac yn cydlynu datblygiad strategaeth cadwraeth tymor hir ar gyfer yr henebyn. Cadw ac English Heritage sy'n ariannu'r fenter hon, ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys sy'n ei rheoli. Bydd Awdurdodau Lleol y chwech ardal y mae'r clawdd yn eu croesi hefyd yn ymwneud yn agos â'r rheolaeth archaeolegol a'r rheolaeth ehangach arno.

13 Yr awdurdodau rheoli perthnasol (yr Awdurdodau Lleol a'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol), mewn partneriaeth â Chyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Countryside Agency, sy'n gyfrifol am ofalu am Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa, ac am ei ddatblygu.

14 Mae Pwyllgor Rheoli Llwybr Clawdd Offa yn cydlynu'r

principles which reflect a full understanding of the significance of the monument and define a clear basis for an integrated approach to its long-term management. The suggested conservation principles are as follows:

- ensure management proposals for Offa's Dyke guarantee the sustainable protection of the earthwork and take into account all aspects of the dyke's significance
- seek to develop partnership and consensus among all those, public or private, involved in the management of Offa's Dyke
- pragmatically link the long-term conservation of Offa's Dyke to existing and ongoing land management processes
- develop the protection of the landscape setting of Offa's Dyke as well as just the physical monument itself
- facilitate more informed management of Offa's Dyke through better archaeological and historical understanding of the monument
- promote awareness and appreciation of Offa's Dyke as a feature of historic and contemporary importance
- encourage public participation in the management of Offa's Dyke
- maximise public and private resources for the enhancement and management of Offa's Dyke

Management Frameworks

12 Much of Offa's Dyke is statutorily protected as a Scheduled Ancient Monument in England and Wales. The Offa's Dyke Initiative, funded by Cadw: Welsh Historic Monuments and English Heritage and managed by the Clwyd-Powys Archaeological Trust, is implementing practical conservation schemes on the dyke and coordinating the development of a long-term conservation strategy for the monument. The six Local Authorities crossed by the dyke are also closely involved in its archaeological and wider management.

13 The care and development of the Offa's Dyke National Trail is undertaken by the relevant managing authorities (the Local Authorities and National Park Authorities) in partnership with the Countryside Council for Wales and the Countryside Agency.

14 The overall management process is collectively



broses reoli gyffredinol, ar y cyd â Phwyllgor Ymgynghorol Clawdd Offa sydd â ffocws archaeolegol.

coordinated by the Offa's Dyke Path Management Committee and the archaeologically focused Offa's Dyke Advisory Committee.

Casgliadau

15 Henebyn unigryw o bwys cenedlaethol yw Clawdd Offa. Mae iddo arwyddocâd sy'n cysylltu archaeoleg, hanes, diwylliant, tirwedd, ecoleg, amwynder ac economeg. Mae'r categorïau o arwyddocâd eto i'w cloriannu yn briodol a'u pwysu yn erbyn ei gilydd mewn termau rheoli manwl, yn enwedig o ran strategaeth gadwraeth gyfun ar gyfer yr henebyn cyfan.

16 Mae pwysau cynyddol ar oroesiad y clawdd o ran ei archaeoleg a'i hunaniaeth unigryw. O ystyried maint a chymhlethdod yr henebyn o ran tirwedd, mae'r dirywiad yn debygol o fod yn sylweddol ac yn barhaus oni bai ein bod yn gweithredu rhaglen gadwraeth integredig sy'n canolbwyntio ar y materion priodol.

17 Dylid seilio rheolaeth barhaus Clawdd Offa ar egwyddorion cadwraeth clir, ac fe fydd gofyn ymwneud effeithiol amrywiaeth eang o bartneriaid, asesiad a chytundeb clir ar dargedau rheoli a chefnogaeth ariannol arwyddocaol.

Y Camau nesaf

18 Yn dilyn y Datganiad Cadwraeth yma, mae'r camau nesaf yn cynnwys:

- *ymgynghoriad pellach gyda grwpiau a mudiadau perthnasol*
- *comisiynu Cynllun Cadwraeth manylach ar gyfer Clawdd Offa*
- *datblygu mentrau codi arian i gefnogi'r broses reoli hirdymor*

19 Mae dechrau hybu Clawdd Offa fel henebyn â Statws Treftadaeth y Byd posibl hefyd yn gynnig ychwanegol. Syniad tymor hir yw hwn, ac er ein bod yn ei grybwyll yma, nid yw hyn yn golygu bod English Heritage, Cadw na phartneriaid eraill yn cefnogi cynnig o'r fath ar hyn o bryd.

Conclusions

15 Offa's Dyke is a unique and nationally important ancient monument with interconnected archaeological, historical, cultural, landscape, ecological, amenity and economic significance. Those categories of significance are yet to be properly evaluated and weighed against one another in detailed management terms, particularly with respect to an integrated conservation strategy for the whole monument.

16 Offa's Dyke is subject to increasing pressures on the survival of its archaeological fabric and distinctive identity, and, given the scale and landscape complexity of the monument, is likely to continue to suffer substantial and ongoing degradation unless a well focused, integrated and sustained conservation programme is implemented.

17 The ongoing management of Offa's Dyke should be based on clear conservation principles and will require effective involvement of a wide range of partners, clear assessment and agreement of management targets and significant funding support.

Next Steps

18 Following on from this Conservation Statement, suggested steps forward include:

- *further consultation with relevant groups and organisations*
- *commissioning a more detailed Conservation Plan for Offa's Dyke*
- *developing fund-raising initiatives to support the long-term management process*

19 An additional suggestion is to begin to promote Offa's Dyke as a monument of potential World Heritage Site status. This is a long term idea, and its mention here does not indicate English Heritage, Cadw: Welsh Historic Monuments or other partner support for such a proposal at this stage.



Cyflwyniad

1

Introduction

Ynglŷn â'r ddogfen hon

1.1 Ffin o bridd rhyw 1200 mlwydd oed yw Clawdd Offa. Mae'n rhedeg am oddeutu 129 km ar hyd y gororau. Mae'r cyfuniad o faint daearyddol, sensitifrwydd archaeolegol a chyd-destun tirwedd Clawdd Offa yn golygu bod cadwraeth yn sialens gymhleth, tymor hir.

1.2 Cam cyntaf yn y dasg o lunio ateb i'r sefyllfa yw'r Datganiad Cadwraeth yma. Ei amcan craidd yw cynnig arfarniad o gymeriad a phwysigrwydd Clawdd Offa. Mae'r Datganiad hefyd yn amlinellu'r pwysau dinistriol cyfoes sy'n effeithio ar y gwrthglawdd, ac yn ceisio awgrymu'r egwyddorion cadwraeth y mae angen eu mabwysiadu er mwyn diogelu'r clawdd a holl agweddau ei arwyddocâd ar gyfer y dyfodol.

1.3 Y gobaith yw y bydd y sefydliadau craidd sy'n ymwneud â rheoli Clawdd Offa yn cydnabod y Datganiad Cadwraeth hwn yn ffurfiol. Fe fydd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi ac i ysgogi ymgynghoriad pellach, a'r prosesau datblygu prosiectau a chodi arian angenrheidiol er mwyn sicrhau cadwraeth parhaus yr henebyn hynod hwn.

Beth yw Clawdd Offa?

1.4 Henebyn archaeolegol hwyaf Prydain yw Clawdd Offa. Gwrthglawdd unionlin hynod ydyw sy'n rhedeg trwy'r Gororau o Dreuddyn (ger Wrecsam yng nogledd-ddwyrain Cymru) i Glogwyni Sedbury (ger aber Afon Hafren, yn ne Swydd Gaerloyw). Credir mai Brenin Offa o deyrnas Eingl-Sacsonaidd y Mers oedd yn gyfrifol am godi'r clawdd yn yr 8fed ganrif fel ffin a rhwystr amddiffynnol rhwng y Mers a'r teyrnasoedd Prydeinig (Cymreig) annibynnol yn yr ardal sydd bellach yn cael ei galw'n Gymru.

1.5 Hyd yn oed yn ôl safonau heddiw mae Clawdd Offa'n gamp adeiladol trawiadol. Roedd o leiaf 129 km wedi'i godi ar ffin oedd unwaith yn 240 km o hyd o bosibl. Arglawdd hyd at 8 metr o uchder â ffos ddofn ar yr ochr orllewinol sydd i'w gweld heddiw.

1.6 Mae Clawdd Offa yn dirnod amlwg ac unigryw yn yr ardal, a defnyddir ef bellach i nodi ffin gyfoes rhwng y ddwy wlad, rhwng plwyfi, rhwng caeau, neu rhwng tiroedd gwahanol berchnogion. Ysgogodd y clawdd y penderfyniad i greu Llwybr Clawdd Offa (un o brif lwybrau troed hir 'Llwybrau Cenedlaethol' Prydain), ac mae'r llwybr yn dilyn 55km y gwrthglawdd yn uniongyrchol.

Cynlluniau a Datganiadau Cadwraeth

1.7 Cododd y cysyniad o 'Gynllun Cadwraeth' a 'Datganiad

About this document

1.1 Offa's Dyke is a 1200-year-old earthen boundary which runs for 129 km through the borderland of Wales and England. The combined geographical scale, archaeological sensitivity, and modern landscape context of Offa's Dyke means that its conservation is a complex long-term challenge.

1.2 This Conservation Statement is a first step in addressing this situation. Its core objective is to offer an initial appraisal of the character and importance of Offa's Dyke. The Statement also outlines the modern destructive pressures acting on the earthwork, and aims to suggest the conservation principles which need to be adopted to preserve the dyke and all aspects of its significance for the future.

1.3 The Conservation Statement has been formally endorsed by the core organisations involved in the management of Offa's Dyke. It will be used to support and initiate the further consultation, project development and fund-raising processes necessary to realise the ongoing conservation of this nationally important ancient monument.

What is Offa's Dyke?

1.4 Offa's Dyke is Britain's longest archaeological monument, a remarkable linear earthwork which runs through the borderlands of Wales and England from Treuddyn (near Wrexham in north east Wales) to Sedbury Cliffs (on the Severn estuary, in southern Gloucestershire). The dyke is believed to have been built in the 8th century AD by King Offa of the Anglo-Saxon kingdom of Mercia as a boundary and defensive barrier between Mercia and the independent British kingdoms then existing in what is now Wales.

1.5 Even by modern standards, Offa's Dyke is a strikingly impressive constructional achievement. At least 129 km of dyke is known to have existed on what may once have been a 240 km frontier line, with the surviving monument consisting of a bank up to 8 metres high associated with a deep western ditch.

1.6 Offa's Dyke is a prominent and locally distinctive landmark often serving as a modern national, parish, ownership or field boundary. The creation of the Offa's Dyke Path (one of Britain's premier 'National Trail' long distance footpaths) was inspired by the dyke, and the route directly follows 55 km of the earthwork.

Conservation Plans and Statements

1.7 The concept of the 'Conservation Plan' and related



Cadwraeth' yn sgîl ceisio nawdd Cronfa Treftadaeth y Loteri (CTL).

1.8 Yn ôl canllawiau'r CTL (tudalen 3) mae Cynlluniau Cadwraeth yn helpu i ddangos dealltwriaeth o holl agweddau'r ased ac y bydd y pwysigrwydd hwn yn cael ei gadw. Mae bellach angen Cynllun Cadwraeth cyn llunio cynllun rheoli manwl neu gynnig prosiect penodol, ac mae English Heritage yn argymhell hwn fel offeryn rheoli treftadaeth, p'un a yw'n gysylltiedig â chais am CTL ai peidio.

1.9 Defnyddir Datganiad Cadwraeth fel cam cyntaf wrth asesu safle yn llai manwl. Nid yw'n galw am ymchwil newydd na'r gwaith arbenigol manwl y mae galw amdano wrth lunio Cynllun Cadwraeth. O'r herwydd, mae'r Datganiad Cadwraeth yn cynnig golwg ragarweiniol ar arwyddocâd strwythur hanesyddol ac amlinelliad darpariaethol o'r egwyddorion cadwraeth sy'n berthnasol i'r henebwn hwnnw. Gellir ei ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth sefydliadau perthnasol a buddgarfanau o'r materion rheoli allai godi. Gellir ei ddefnyddio hefyd i helpu wrth ddiffinio cwmpas Cynllun Cadwraeth llawn.

Pam fod angen Datganiad Cadwraeth

1.10 Mae arolygon cyflwr archaeolegol dros y degawd diwethaf wedi dangos bod difrod difrifol a pharhaus o ganlyniad i erydiad ar hyd llawer o Glawdd Offa. Mae English Heritage a Cadw wedi noddi 'Menter Clawdd Offa' yn ddiweddar mewn ymateb i'r sefyllfa yma. Prosiect yw hwn sy'n ceisio hwyluso cynlluniau rheoli ymarferol ar y clawdd, a llunio dull strategol tymor hir o drin cadwraeth yr henebwn.

1.11 Canlyniad dilyniant cymhleth o ddatblygu hanesyddol yw Clawdd Offa, fel y gwelwn ef heddiw. Mae yna angen clir i ddechrau diffinio'r holl elfennau sy'n gwneud y clawdd yn henebwn gwerthfawr, cyn y gallwn lunio polisi rheolaeth cytbwys ac integredig. Hefyd mae angen sefydlu egwyddorion cadwraeth priodol i'w defnyddio wrth gynnal cymeriad arbennig yr henebwn hynod hwn. Mae proses ddadansodol o'r fath hefyd yn galw am ddealltwriaeth drylwyr o gyd-destun cyfoes y clawdd a natur y pwysau erydu sy'n effeithio arno.

Cynnwys y Datganiad Cadwraeth

1.12 Mae'r Datganiad Cadwraeth yma'n cyflawni'r canlynol:

- *mae'n crynhoi ein dealltwriaeth o bwysigrwydd archaeolegol a hanesyddol, ac arwyddocâd ehangach Clawdd Offa*

'Conservation Statement' has emerged from the Heritage Lottery Fund (HLF) application process.

1.8 According to the HLF guidance (page 3) 'Conservation Plans help to demonstrate . . . a clear understanding of all aspects of the asset and that this importance will be retained'. A Conservation Plan stands before a detailed management plan or a particular project proposal, and is now advocated by English Heritage as a fundamental tool of heritage management whether or not linked to an HLF application.

1.9 A Conservation Statement is a more basic 'first stop' site assessment without the new research and detailed specialist input which a full Conservation Plan involves. As such a Conservation Statement offers a preliminary view of the significance of a historic structure and a provisional outline of the conservation principles applicable to that monument. It may be used to raise awareness of potential management issues among relevant organisations and interested parties as well as to help define the scope of a full Conservation Plan.

Why a Conservation Statement is needed

1.10 Archaeological condition surveys over the last decade have shown that Offa's Dyke is suffering serious and ongoing erosion damage along much of its length. In response to this situation English Heritage and Cadw: Welsh Historic Monuments have recently funded 'The Offa's Dyke Initiative', a project aiming both to facilitate practical management schemes on the dyke and to pull together a longer-term strategic approach to the conservation of the monument.

1.11 Offa's Dyke as it appears today is the end result of a complex sequence of historical development. There is an evident need, before a more rounded and integrated management policy can be formulated, to begin to define all the elements which make the dyke valuable, and to establish appropriate conservation principles against which the special character of this highly distinctive monument can be maintained. Such an analytical process also requires a thorough understanding of the contemporary context of the dyke and the nature of the erosion pressures acting upon it.

The contents of the Conservation Statement

1.12 This Conservation Statement fulfils the following:

- *it summarises our understanding of the archaeological, historical and wider significance of Offa's Dyke*



- *mae'n amlinellu problemau cadwraeth a materion eraill sy'n wynebu Clawdd Offa*
- *mae'n awgrymu'r egwyddorion cadwraeth craidd y dylid eu defnyddio yn sail i reolaeth Clawdd Offa*
- *mae'n nodi man cychwyn lle gellir dechrau datblygu strategaeth cadwraeth tymor hir ar gyfer Clawdd Offa. Fe fydd hon yn ei thro yn cyfuno'n briodol materion archaeoleg, tirwedd, ecoleg, ymwneud y cyhoedd, mynediad y cyhoedd ac economeg.*
- *it outlines the conservation problems and issues facing Offa's Dyke*
- *it suggests core conservation principles against which the management of Offa's Dyke should be set*
- *it identifies a starting point from which a long-term conservation strategy for Offa's Dyke can be developed which will properly integrate archaeological, landscape, ecological, public involvement, public access and economic issues.*



Clawdd Offa heddiw

2

Offa's Dyke today

2.1 Mae 129 km o'r hyn rydym yn ei ystyried yn Glawdd Offa yn rhedeg o'r gogledd i'r de rhwng Treuddyn (ger Wrecsam) a Chlogwyni Sedbury (ar aber Afon Hafren). Mae 105 km o'r clawdd i'w weld yn glir fel gwrthglawdd sydd wedi goroesi.

2.2 Arglawdd unionlin o bridd yw elfen sylfaenol strwythur yr henebyn. Lle mae'r clawdd mewn cyflwr da, mae'r rhagfur yn ymddangos yn anghymesur o'r ochr, gyda wyneb gorllewinol sy'n fwy serth. Bydd ffos lydan ar ochr orllewinol yr arglawdd, er y bydd ambell ffos neu bant mwy afreolaidd i'w gweld hefyd ar yr ochr ddwyreiniol. Mae cymeriad manwl y gwrthglawdd yn gwahaniaethu'n sylweddol o fan i fan, ac mae hyn yn rhannol oherwydd y ddaearreg leol, a'r defnydd y gwnaed y clawdd ohono. Mae'r modd penodol y mae'r clawdd yn ffitio i'r dirwedd leol hefyd yn dylanwadu ar gymeriad y clawdd.

2.3 Mae cyflwr y clawdd, a faint ohono sydd ar ôl, yn amrywio o wrthglawdd nad oes modd ei weld o'r bron i strwythur enfawr rhyw 8 metr o uchder o waelod o ffos i ben yr arglawdd ei hun. Yn aml, lle gwelir y clawdd, bydd y ffos wedi'i llenwi, a lle gwelir pant y ffos, mae'r clawdd ei hun wedi diflannu. Bellach mae llawer o fylchau mawr a mân yn y clawdd, er bod ei hynt fel gwrthglawdd parhaus yn ddigon amlwg ar y cyfan.

2.4 Mae'r rhan fwyaf o'r clawdd yn rhedeg trwy dirwedd wledig a bugeiliol. Yng Nghymru, mae 47% o'r tir o'i gwmpas dan reolaeth amaethyddol sylfaenol (porfa wedi'i wella gan fwyaf), ac mae defnydd arall o'r tir — coetir (18%), gwrychoedd (7%), ffiniau eraill (11%) a ffordd/llwybr (10%) — yn adlewyrchu'r un cyd-destun gwledig. Dim ond 7% o'r clawdd sydd yn yr amgylchedd adeiledig (Burnham 1992). Rhywbeth yn debyg yw'r patrwm yn Lloegr (Leigh 1996, Hoyle a Vallender 1997), ac mae cymeriad gweledol y clawdd yn deillio o'i berthynas gymhleth â'r cyd-destun cyfoes.

Clogwyni Sedbury i Lydbrook Swydd Gaerloyw

2.5 Mae 15.2 km o'r llwybr wedi goroesi. Ar hyd ymyl dyffryn Gwy rhwng Redbrook a Chlogwyni Sedbury yn bennaf y gwelir y clawdd yn Sir Gaerloyw, er bod darn byr ohono ychydig i'r gogledd yn Lydbrook. Gellir gweld yr henebyn fel arfer ar ben sgarp dwyreiniol y dyffryn. Mae gan y darn sydd yn y cyflwr gorau, sef y rhan sy'n rhedeg trwy Tidenham Chase, glawdd uchel sy'n defnyddio'r llethrau naturiol i raddau, a ffos sydd wedi ei chloddio fel teras yn ochr y bryn islaw. Mae'r clawdd ei hun, fodd bynnag, yn amrywio o ran cymeriad a safon ei gadwraeth. Ambell waith ceir cafnau chwarel afreolaidd ar yr ochr ddwyreiniol yn hytrach na ffos ar yr ochr orllewinol. Gerllaw Comin Sant Briavel, mae'r gwrthglawdd, a erydwyd gan ganrifoedd o amaethyddiaeth yn

2.1 129 km of what is considered to be Offa's Dyke has been identified on a north-south alignment between Treuddyn (near Wrexham) and Sedbury Cliffs (on the Severn Estuary). 105 km of the dyke can still be traced as a surviving earthwork.

2.2 The basic structural element of the monument is a large linear earthen bank. Where it is well preserved this rampart tends to show an asymmetrical profile, with a steeper face to the west. The bank is most often associated with a broad ditch on its western side, though a ditch or more irregular excavated hollows may also sometimes be present to the east. The precise character of the earthwork differs considerably, and this in part reflects the underlying geology and the material from which it is made, and is also influenced by the particular way the dyke fits into the local terrain.

2.3 The dyke's preservation and condition varies greatly from a barely visible earthwork to a massive structure some 8 metres high from the base of the ditch to the top of the bank. Often where the bank exists the ditch is infilled, or sometimes it is the ditch which is present while the bank is lost. The dyke is now breached by many larger and smaller gaps, though its overall nature as a continuous earthwork is generally still evident.

2.4 Most of the dyke occupies a rural and largely pastoral landscape. In Wales 47% is in primary agricultural management (mainly improved pasture), and other landuses — woodland (18%), hedgerow (7%), other boundary (11%) and road/path (10%) reflect the same countryside context, with only 7% in the built environment (Burnham 1992). The pattern is similar in England (Leigh 1996, Hoyle and Vallender 1997), and much of the visual character of the dyke stems from its complex relationship to this modern setting.

Sedbury Cliffs to Lydbrook Gloucestershire

2.5 15.2 km extant. The dyke in Gloucestershire is mainly located along the edge of the Wye valley between Redbrook and Sedbury Cliffs, with an additional short length of earthwork situated to the north at Lydbrook. The monument typically occupies a commanding position on top of the eastern scarp of the valley. The best preserved section, through Tidenham Chase, exhibits a high bank partly exploiting the natural slope, with a ditch terraced out of the hillside below. The dyke does, however, vary significantly in character and preservation; sometimes the western ditch is abandoned in favour of more irregular eastern quarry hollows, and in the vicinity of St Briavel's Common, the earthwork — which is hereabouts much eroded by centuries of agriculture



y fan hon, i'w gweld ar ffurf arglawdd isel heb ffos. Does dim sôn o'r clawdd yng nghyffiniau Cas-gwent, ond mae rhan ohono sydd mewn cyflwr da yn croesi ffos dros Buttington Tump i ddod i ben ei daith yn y de ger Clogwyni Sedbury.

2.6 Cyd-destun y Dirwedd Mae rhan helaeth o'r clawdd o fewn Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy ac mae hefyd o fewn yr ardal a ddynodir gan Cadw yn Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Gwy. Mae'r rhan fwyaf o'r clawdd mewn coetir lled-hynafol sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac (yng Nghoedwig Highbury) sydd wedi ei ddynodi'n Warchodfa Natur Genedlaethol. Ar Gomin Sant Briavel mae'r clawdd wedi ei integreiddio i'r dirwedd unigryw o lonydd a thyddynnod sydd wedi datblygu, yn ôl pob golwg, trwy broses hanesyddol hir o sgwatwyr yn ymsefydlu ar y comin. Gerllaw Cas-gwent, mae cyd-destun y dirwedd yn fwy trefol. Yn Sedbury, mae'r clawdd yn rhedeg ar hyd ymylon stadau tai o'r 20fed ganrif cyn croesi hen ddarn o barcdir ar ei ben deheuol. Y rhan hon o'r clawdd yn Swydd Gaerloyw yw rhan brysuraf Llwybr Clawdd Offa.

Lydbrook i Fryn Rushock Swydd Gaerloyw a Swydd Henffordd

2.7 Mae 4.5 km o'r llwybr wedi goroesi. Tua'r gogledd, o Lydbrook i Fryn Rushock rhyw 50km i ffwrdd, dim ond darnau bychain o Glawdd Offa (neu'r hyn a ystyrir yn Glawdd Offa) sydd ar ôl. Yn eu plith mae rhannau i'r gorllewin o Henffordd yn Bridge Sollars a Yazor, ac ychydig i'r gogledd, y gwrthgloddiau yn Holme Marsh a Lyonshall. Ni wyddys i sicrwydd a yw'r strwythurau hyn yn wirioneddol yn rhan o Glawdd Offa, er eu bod yn debyg o ran ffurf i weddill yr henebyn, gydag olion arglawdd amlwg a ffos orllewinol bob yn hyn a hyn.

2.8 Cyd-destun y Dirwedd Mae'r clawdd ar Wastadedd Henffordd lle ceir amaethyddiaeth ddwys sy'n nodwedd bwysig yn lleol. Mae'n drawiadol fel ffin rhwng caeau ac yn goridor i wrychoedd.

Bryn Rushock i Drefyclo Swydd Henffordd a Phowys

2.9 Mae 16.1 km o'r llwybr wedi goroesi. Mae'r clawdd yn ailgychwyn fel nodwedd parhaus ar Fryn Rushock, ac yn ymdroelli tua'r gogledd tuag at Drefyclo ar draws brynau a dyffrynnoedd yr hen sir Faesyfed. Er bod rhannau o'r henebyn — yn enwedig yng ngwaelod y dyffrynnoedd lle ceir gwaith amaethyddol dwys — wedi mynd i ddifancoll, mae'r clawdd ar y cyfan yn drawiadol ac wedi cadw'n dda. Mae safle'r gwrthglawdd sylweddol sy'n wynebu'r gorllewin yn Burfa, y

— is mostly found as a low bank without a visible ditch. The dyke has not been traced in the immediate vicinity of Chepstow, and reaches its southern terminus at Sedbury Cliffs via a well-preserved length of bank and ditch across Buttington Tump.

2.6 Landscape Context Much of the dyke is located within the Wye Valley Area Of Outstanding Natural Beauty and is additionally part of the Cadw registered Lower Wye Valley Landscape Of Special Historic Interest. The monument is largely under semi-ancient woodland which has Site of Special Scientific Interest (SSSI) and (in Highbury Woods) National Nature Reserve status. On St Briavel's Common the dyke is integrated into a distinctive landscape of lanes and smallholdings which appears to have evolved through a long historical process of squatter settlement on the common. Close to Chepstow, the landscape context is more urban in nature; at Sedbury the dyke fringes 20th-century housing estates before crossing a remnant parkland setting at its far southern end. The dyke in Gloucestershire mostly forms the line of what is one of the most heavily used sections of the Offa's Dyke Path.

Lydbrook to Rushock Hill Gloucestershire and Herefordshire

2.7 4.5 km extant. Northwards from Lydbrook to Rushock Hill some 50 km away, only very short stretches of what is generally considered to be Offa's Dyke survive. These include the lengths west of Hereford at Bridge Sollars and Yazor, and further north, the earthworks at Holme Marsh and Lyonshall. It is a matter of academic debate if any of these structures are really part of Offa's Dyke, although they are of comparable form to the rest of the monument, with well-defined bank and western ditch remains intermittently preserved.

2.8 Landscape Context The dyke occupies the intensively farmed Herefordshire Plain. Where it is present, the earthwork is a locally important feature, and makes a significant physical impact as a field boundary and hedgerow corridor.

Rushock Hill to Knighton Herefordshire and Powys

2.9 16.1 km extant. The dyke recommences as a more continuous feature on Rushock Hill, and twists northwards towards Knighton across the picturesque hills and valleys of the old county of Radnorshire. Although sections of the monument — particularly in the intensively farmed valley bottoms — have been lost, the dyke is generally well preserved and impressive. Notable stretches include the substantially constructed earthwork sited in a commanding west-facing



clawdd a'r ffos orllewinol sy'n disgyn i lawr o Ben Offa i Ddisgoed, a rhagfur yr arglawdd wrth iddo grymu dros Fryn Hawthorn oll yn ddarnau hynod o'r clawdd. Hyd yn oed lle na welir y gwrthglawdd, mae modd gweld ei hynt fel llinell gwrych neu ffin, felly mae modd ei ddilyn yn ddi-dor.

2.10 *Cyd-destun y Dirwedd* Dynodwyd tirwedd Sir Faesyfed yn Ardal Amgylcheddol Sensitif, gyda'r sail amaethyddol fugeiliol a'r patrwm anheddu gwasgareddig sydd mor nodweddiadol o ardaloedd y Gororau. Mae amgylchoedd y clawdd yn amrywio'n fawr; mae'n rhedeg trwy blanhigfa goed i'r dwyrain o Einsiob, yn ffurfio coridor o brysgwydd gyda ffermydd ar ar y naill ochr yn Burfa, yn dringo i'r ucheldir ar Fryn Rushock, ac yn cyrraedd y dref yn Nhrefyclo. Mae Llwybr Clawdd Offa yn dilyn hynt y clawdd i raddau helaeth.

Trefyclo i Mellington Powys a Swydd Amwythig

2.11 Mae 21.6 km o'r llwybr wedi goroesi. Wrth esgyn i'r gogledd o Drefyclo, mae'r clawdd yn troi ar yn ôl yn droellog dros gefn gwlad Clun, gan ddringo i dros 420 metr ar Fryn Llanfair, cyn disgyn i'r iseldir y tu hwnt i Ffordd Las Ceri. Yn y fan yma, mae'n debyg, y ceir darn hwyaf yr henebyn mewn cyflwr da. Mae'n bosibl gweld adrannau enfawr o'r gwrthglawdd o amgylch Bryn Llanfair, ar lethrau Bryn Hergan a'r naill ochr i Ffordd Las Ceri. Yn aml, mae'r ffos yn arbennig o amlwg oherwydd y clawdd gwrthsgar ar yr ymyl orllewinol. Mewn mannau eraill mae'r gwrthglawdd rhywfaint yn llai, er enghraifft wrth iddo groesi Bryn Panponton y tu hwnt i Drefyclo, ond mae'n dal i fod yn nodweddiadol amlwg yn y dirwedd.

2.12 *Cyd-destun y Dirwedd* Pentrefannau bychain a ffermydd gwasgareddig mewn amgylchedd gwledig a grëwyd trwy gau tir amaethyddol yn y 19fed ganrif sy'n llunio tirwedd ardal Clun. Mae'r rhanbarth yn rhan o Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Swydd Amwythig, ac hefyd yn Ardal Amgylcheddol Sensitif. Mae'r clawdd yn rhan weledol a ffisegol sylfaenol o'r amgylchedd lleol, ac mae Llwybr Clawdd Offa yn dilyn ei hynt yn y fan hon. Mae lleoliad trawiadol y gwrthglawdd yn ddefnyddiol yn hyn o beth, gan ei fod yn cynnig golygfeydd ysblennydd o'r ardal ddeniadol ac anghysbell hon. Er mai glaswellt sy'n gorchuddio'r clawdd yn bennaf, mae ganddo swyddogaeth bwysig yn lleol fel ffin ac fel gwrych. Hefyd mae'n rhedeg trwy goetiroedd o goed llydanddeiliog a chonwydd, gan gynnwys y planhigfeydd sy'n gysylltiedig â'r parcedir o amgylch Plas Mellington y mae Cadw wedi'i gofrestru yn Barc a Gardd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol.

position at Burfa, the fine length of bank and western ditch which descends from Pen Offa to Disgoed, and the dyke rampart on its curving course over Hawthorn Hill. Even where the earthwork is missing, its course is usually traceable as a hedgeline or boundary, and the linear identity of the dyke remains intact.

2.10 *Landscape Context* The Radnorshire landscape is designated as an Environmentally Sensitive Area, and largely retains the pastoral agricultural basis and dispersed rural settlement pattern typical of the Marches. The immediate context of the dyke varies; it exists in plantation woodland east of Evenjobb, forms a scrub corridor fringed by arable farming at Burfa, occupies a more upland situation on Rushock Hill, and enters an urban setting in Knighton. Much of the dyke is the line of the Offa's Dyke Path.

Knighton to Mellington Powys and Shropshire

2.11 21.6 km extant. Climbing northwards from Knighton, the dyke takes a sinuous 'switchback' route over the rolling Clun countryside, ascending to over 420 metres at Llanfair Hill, before dropping to the lowlands beyond the Kerry Ridgeway. This is probably the best continuously well preserved stretch of the monument. Particularly massive sections of earthwork, often with the ditch emphasised by a counterscarp bank on its western edge, can be seen around Llanfair Hill, on the slopes of Hergan Hill and either side of the Kerry Ridgeway. In other places, notably as it crosses Panponton Hill beyond Knighton, the Dyke earthworks are slighter in construction, but still form an impressive feature in the landscape.

2.12 *Landscape Context* The Clun area is a distinctive landscape of small hamlets and dispersed farmsteads set in a pastoral context substantially created by 19th-century agricultural enclosure. The region is part of the Shropshire Hills Area of Outstanding Natural Beauty as well as being separately designated as an Environmentally Sensitive Area. The dyke is a fundamental visual and physical part of the local environment, and is also followed by the Offa's Dyke Path which exploits the often dramatic location of the earthwork to give fine views of this attractive and remote area. Although mostly under grassland, the dyke has an important local function as a boundary and hedgerow. It is also found in deciduous and coniferous woodland, notably including plantings associated with parkland around Mellington Hall which is registered by Cadw as a Park And Garden Of Special Historic Interest.



Mellington i Buttington Powys a Swydd Amwythig

2.13 Mae 18.4 km o'r llwybr wedi goroesi. I'r gogledd o Mellington, mae'r clawdd yn ffarwelio â'r tir uchel ac yn mynd yn ei flaen ar hyd y gwastadedd i'r dwyrain o Drefaldwyn mewn llinell syth a phendant. Mae cyflwr y clawdd yn newid yn sydyn o gae i gae, yn amrywio o'r clawdd a'r ffos enfawr y gellir eu gweld wrth Bont Ffin y Sir ychydig i'r de o ffordd Trefaldwyn i Amwythig, i adrannau lle nad oes modd gweld ond mymryn o'r clawdd sydd wedi ei erydu neu ffos sydd wedi ei llenwi, neu lle nad oes dim ond llinell y gwrych ar ôl. O Ffordyn, mae'r clawdd, yn ddi-ddorol iawn, yn dargyfeirio i fyny ar hyd ystlys Long Mountain, cyn cwmpo'n ôl i wastadedd Afon Hafren yn Buttington.

2.14 *Cyd-destun y Dirwedd* Bu ffermio â'r dwys yn Nyffryndir Trefaldwyn am flynyddoedd lawer, ac mae gweithgareddau o'r fath yn parhau hyd heddiw, er bod llawer o borfa i'w gweld hefyd. Mae Cadw wedi cofrestru'r ardal yn Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, ac mae rhannau o'r clawdd hefyd yn mynd trwy ardal Lymore a Thre'r Llai sydd wedi'i chofrestru yn Barc a Gardd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Mae'r gwrthglawdd, sy'n ffurfio rhan o'r ffin rhwng Cymru a Lloegr, i'w weld yn amlwg fel rheol fel nodwedd unionlin sy'n rhannu iseldir y dirwedd rhwng aneddiadau gwledig yr Ystog, Trefaldwyn, Llanffynhonwen a'r Trallwng; mae'r prysgwydd a'r coetir sydd wedi tyfu ar hyd yr henebyn yn llunio ei gymeriad gweledol. Ar Long Mountain mae rhannau helaeth o'r clawdd yn rhedeg trwy blanhigfeydd conwydd, ac o'r herwydd mae'n anodd gweld y gwrthglawdd yn amlwg yn yr ardal i'r gorllewin. Mae Llwybr Clawdd Offa yn dilyn hynt y clawdd yn agos yn yr adran hon.

Buttington i Gastell y Waun Powys a Swydd Amwythig

2.15 Mae 17.5 km o'r llwybr wedi goroesi. I'r gogledd o Buttington, nid yw hynt y clawdd ar draws gwastadedd Afon Hafren wedi ei ddarganfod. Mae'n ymddangos eto i'r de o Four Crosses, lle defnyddir rhannau o'r clawdd yn ddiweddar fel argaeau i atal llifogydd. O'r fan hon mae modd dilyn hynt y clawdd tua'r gogledd fel nodwedd sy'n ymddangos bob yn hyn a hyn, ac yn rhedeg o amgylch gwaelod Bryn Llanymynech (gan ddilyn amddiffynfeydd bryngaer o oes gynharach) ac ymlaen i Drefonen i'r gorllewin o Groesoswallt. Mae'r henebyn yn dod yn fwyfwy cyfan, ac yn gynyddol amlwg a thrawiadol fel clawdd a ffos ar lethrau gorllewinol Dyffryn Candy, ac yn cynnwys gwrthglawdd enfawr wrth fynd dros Fryn Baker a thu hwnt i Gastell y Waun; mae'r clawdd ar y naill ochr a'r llall i Ddyffryn Ceiriog yn fawr ac mewn cyflwr cystal ag ydyw yn unman.

Mellington to Buttington Powys and Shropshire

2.13 18.4 km extant. North of Mellington, the dyke abandons the high ground and strikes out across the lowland plain east of Montgomery with a straight and deliberate course. The state of preservation of the dyke changes abruptly from field to field, ranging from the massive bank and ditch visible at County Boundary Bridge immediately south of the Shrewsbury-Montgomery road, to sections where only a part of the eroded bank or infilled ditch can be traced, or other places where nothing but a hedgeline remains. From Forden, the dyke rather curiously diverts up the flank of the Long Mountain, before dropping back to the Severn plain at Buttington.

2.14 *Landscape Context* The Vale of Montgomery has long been subject to intensive arable farming operations and retains such activity today, though much pasture is also in evidence. The area is registered by Cadw as a Landscape Of Special Historic Interest, and the dyke also falls within Cadw registered Parks And Gardens of Special Historic Interest at Lymore and Leighton. The earthwork, which partly forms the England-Wales border, generally stands out as a prominent linear feature bisecting the lowland landscape between the rural settlements of Churchstoke, Montgomery, Chirbury and Welshpool; its visual character is emphasised by scrub and woodland which have colonised the line of the monument. On the Long Mountain much of the dyke is under coniferous plantation, and consequently difficult to appreciate as an earthwork dominating the area to the west. The dyke is closely followed by the Offa's Dyke Path throughout its length.

Buttington to Chirk Castle Powys and Shropshire

2.15 17.5 km extant. North of Buttington, the presumed course of the dyke across the Severn plain has not been identified. It reappears south of Four Crosses, where stretches of the bank have been reused in recent times as flood defence argae. The dyke can then be traced northwards as an intermittent feature which skirts Llanymynech Hill (following the defences of an earlier hillfort) and heads on to Trefonen, west of Oswestry. The monument becomes more impressive and continuous as a well-defined bank and ditch on the western slopes of the Candy Valley, and is similarly marked by earthworks of massive character over Baker's Hill and beyond to Chirk Castle; the dyke either side of the Ceiriog Valley is as big and well-preserved as anywhere.



2.16 *Cyd-destun y Dirwedd* Mae'r clawdd yn mynd trwy dirwedd amrywiol, gan gynnwys aneddiadau gwasgaredig cefn gwlad Treflach a Threfonen gyda'u rhwydweithiau o lonydd, tyddynnod a chaeau, coetiroedd â chymysgedd o gonwydd a choed collddail yn Nyffryn Candy, a chlytwaith y porfeydd wedi'u gwella sy'n nodweddiadol o'r ucheldiroedd calchfaen bryniog ger Craignant. Mae'r clawdd yn ffurfio'r ffin cenedlaethol i'r de i Fronygarth, ac er nad yw'r dirwedd yma mor drawiadol ar y cyfan â thirwedd Clun neu Sir Faesyfed, mae'r clawdd yn dal i fod yn elfen sylfaenol o'r amgylchoedd. Mae'n hawdd deall bod y rhan hon o'r clawdd yn boblogaidd â cherddwyr Clawdd Offa, er bod y llwybr yn symud i ffwrdd o'r gwrthglawdd o bryd i'w gilydd, yn enwedig ym Mryn Baker.

Castell y Waun i Dreuddyn Powys, Wreccsam a Sir Y Fflint

2.17 Mae 11.4 km o'r llwybr wedi goroesi. Mae'r clawdd wedi goroesi'n dda drwy dir Castell y Waun, ond yna mae'n dod yn fwy tameidiog wrth iddo ddilyn hynt drwy ardal sydd bellach llawn datblygiadau trefol a diwydiannol yn Rhiwabon, Coedpoeth a Brymbo. Er hynny, mae rhai rhannau trawiadol o'r gwrthglawdd wedi goroesi, yn enwedig ger Plas Offa ar bwys Camlas y Shropshire Union ger Afon Dyfrdwy, a'r darn gwyach o arglawdd a ffos ar hyd Ffordd Tatham, Rhiwabon. Daw'r clawdd i ben i'r gogledd o Lanfynydd, lle mae'n goroesi fel ffos ddofn ar fin y dyffryn, gyda'r llethr naturiol yn ffurfio'r clawdd uwchben.

2.18 *Cyd-destun y Dirwedd* Daw pen gogleddol Clawdd Offa drwy dirwedd ar ymylon ardal drefol, gyda chymeriad tra gwahanol i'r ardaloedd gwledig eraill y mae'r henebyn yn mynd trwydynt. Er bod y clawdd sy'n goroesi yn yr ardal hon hefyd i'w weld mewn pceddi o dir amaethyddol a choetiroedd (megis tir Castell y Waun y mae Cadw wedi ei gofrestru yn Barc a Gardd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol), fe'i gwelir hefyd ar dir ysgolion, ar ymylon ardaloedd fu unwaith yn ddiwydiannol, yn rhedeg yn agos at stadau tai, neu, fel y gwelir yn Lanfynydd, dan y ffordd. Mae Llwybr Clawdd Offa yn gadael y gwrthglawdd ger Plas Offa, ond mae'r clawdd yn parhau i fod yn goridor adnabyddadwy mewn tirwedd gyfoes. Mae'n bosibl ei fod yn bwysicach yn y fan hon oherwydd ei fod mor agos i ardal lle mae llawer o bobl yn byw.

2.16 *Landscape Context* The dyke passes through a varied landscape, including the distinctive and dispersed rural settlements of Treflach and Trefonen with their networks of lanes and associated smallholdings and fields, the mixed coniferous and deciduous woodlands of the Candy Valley, and the patchwork of improved pasture characterising the rolling limestone uplands around Craignant. The dyke forms the national border south of Bronygarth, and if its landscape situation is generally less commanding than in Radnorshire or the Clun area, it is still a fundamental element in the surrounding environment. This stretch of the dyke is understandably popular with Offa's Dyke walkers, although the path does sometimes deviate from the earthwork, notably at Baker's Hill.

Chirk Castle to Treuddyn Powys, Wrexham and Flintshire

2.17 11.4 km extant. Well-preserved through the grounds of Chirk Castle, the dyke then becomes more fragmentary as it follows an alignment through an area now colonised by the urban and industrial expansion of Ruabon, Coedpoeth and Brymbo. Nonetheless, impressive stretches of earthwork do remain, notably at Plas Offa adjacent to the Shropshire Union Canal near the River Dee and the fine length of bank and ditch along Tatham Road, Ruabon. The dyke terminates north of Llanfynydd, where it survives as a deep ditch on the valley edge, with the bank above modified from the natural slope.

2.18 *Landscape Context* The northern end of Offa's Dyke mostly occupies an urban fringe landscape rather different in character to the rural areas the monument passes through elsewhere. Although the surviving dyke is even here often associated with pockets of agricultural land and woodland (such as the Cadw registered Chirk Castle Park and Garden of Special Historic Interest) it is also found in school grounds, on the margins of former industrial areas, running close to housing estates, or, as at Llanfynydd, under a road. The Offa's Dyke Path departs from the earthwork at Plas Offa, but the dyke is still a recognisable corridor in the modern landscape, perhaps all the more important exactly because of its proximity to an area where many people live.



Hanes Clawdd Offa

3 The history of Offa's Dyke

Offa a'r Mers

3.1 Prin iawn yw'r deunydd hanesyddol rydym wedi ei etifeddu sy'n ymwneud â Mers yr henfyd, ac mae'n nodweddiadol ynddo mai dim ond un cyfeiriad hanesyddol Eingl-Sacsonaidd at Glawdd Offa sy'n hysbys. Mae'r ysgolhaig Cymreig Asser yn crybwyll yn ei 'Fuchedd Arthur', ar ddiwedd y 9fed ganrif, 'There was in Mersia in fairly recent times a certain vigorous King called Offa who terrified all the neighbouring Kings and provinces around him, and who had a great dyke built between Britain [h.y. Cymru] and Mercia from sea to sea' (Stephenson 1959). Mae'n debygol bod hen draddodiad enw 'Clawdd Offa' ynddo'i hyn yn cadarnhau'r cysylltiad hwn rhwng Offa a'r clawdd. Gellir dod o hyd i gyfeiriadau at hwn mewn dogfennau — ar ffurf 'Offerdiche' — mor bell yn ôl â'r 12fed ganrif (Noble 1983).

3.2 Roedd y Mers, sef Canolbarth Lloegr heddiw, yn un o nifer o deyrnasod ddaeth i'r amlwg yng nghanol / diwedd y milflwyddiant cyntaf OC, pan roedd rheolaeth wleidyddol yr Eingl-Sacson yn raddol ledaenu dros lawer o Brydain fu dan reolaeth y Rhufeinwyr cyn hynny. Etifeddodd Offa dalaith y Mers, oedd eisoes yn bwerus, oddi wrth ei ragflaenydd, y Brenin Aethelbald (716–57). Yn ystod ei deyrnasiad ei hun (757–96) fe sefydlodd Offa reolaeth y Mers ar lawer o'r hyn sy'n Lloegr heddiw, trwy gychoedd milwrol a chynghreiriau gwleidyddol. Mae perthynas Offa ag arweinydd Ffrancaidd Siarlymaen yn cadarnhau statws Offa; Siarlymaen oedd ffigiwr gwleidyddol pwysicaf Gorllewin Ewrop ar ddiwedd yr 8fed ganrif. Mewn gohebiaeth sydd wedi goroesi, mae Siarlymaen yn trin Offa fel rhywun cydradd, a lluniodd y ddau lywodraethwr gytundebau masnachu nodedig.

3.3 Tra bo'r ffynonellau hanesyddol yn anghyflawn, ar y gorau, mae'n glir bod Mers ymledol ac uchelgeisiol Offa yn rhyfela'n frwd â'i chymdogion i'r gorllewin (Hill 2000). Roedd y gwrthdaro hwnnw yn cynnwys cychoedd milwrol uniongyrchol Offa yn 778 a 784 i'r hyn sy'n Gymru heddiw, ac mae'n debygol bod y Prydeinwyr hefyd yn ymosod i'r un raddfa ar y Mers. Mae arysgrif ar groes 'Piler Eliseg' yng Nglyn y Groes ger Llangollen yn brolio yn ddisgrifiadol sut y trosodd Eliseg, rheolwr diweddarach yr 8fed ganrif ar deyrnas Powys, aneddiadau cyfagos Seisnig yn dir cleddyf trwy dân.

3.4 Nid datblygiad newydd mo patrwm o'r fath. Mae'n ymddangos y bu cymunedau lleol yn adeiladu ac yn defnyddio llawer o systemau cloddiau byr yn y Mers dros ganrifoedd llawer i amddiffyn eu hunain rhag ymosodiadau. Ystyriwyd Clawdd Wat, 61 km o hyd yng ngogledd y Mers, yn glawdd a adeiladwyd cyn Clawdd Offa yn yr 8fed ganrif. Ond yn ddiweddar mae profion dyddio radio-carbon yn awgrymu dyddiad llawer h~n o'r 5ed/6ed ganrif. O'r herwydd, mae'n dangos hanes hir dramatig y sefyllfa oedd yn wynebu Offa

Offa and Mercia

3.1 It is symptomatic of the dearth of historical material which has come down to us relating to ancient Mercia that only one Anglo-Saxon historical reference to Offa's Dyke is known. The Welsh scholar Asser mentions in his late 9th-century 'Life of Alfred' that 'There was in Mercia in fairly recent times a certain vigorous King called Offa who terrified all the neighbouring Kings and provinces around him, and who had a great dyke built between Britain [i.e. Wales] and Mercia from sea to sea' (Stephenson 1959). The association of the dyke with Offa seems to be corroborated by the long-standing tradition of the 'Offa's Dyke' name itself, which can be documented — in the form of 'Offediche' — at least as far back as the 12th century (Noble 1983).

3.2 Mercia, centred on what is today the English Midlands, was one of a number of kingdoms which emerged in the mid/late first millennium AD from the gradual extension of Anglo-Saxon political control over much of former Roman Britain. Offa inherited an already powerful Mercian state from his predecessor, King Aethelbald (716–57). In the course of his own reign Offa (757–96) established, through military campaigns and political alliance, Mercian control over much of what we now call England. Offa's status is confirmed by his relationship to the Frankish leader Charlemagne, who was the most important political figure in late 8th-century Western Europe; in surviving correspondence, Charlemagne treats Offa as an equal, and the two rulers concluded notable trade agreements.

3.3 While the historical sources are at best incomplete, it is clear that Offa's expansionist and ambitious Mercia was involved in significant warfare with its western neighbours (Hill 2000). That conflict included direct military campaigns by Offa into what is now Wales in 778 and 784, and it is likely that the British also mounted similar large scale attacks against Mercia. An inscription on the 'Pillar of Eliseg' cross at Valle Crucis near Llangollen graphically boasts how Eliseg, a later 8th-century ruler of the kingdom of Powys, turned areas of adjacent English settlement 'into a sword-land by fire'.

3.4 Such a pattern was evidently not a new development. The many short dyke systems in the Marches seem to have been built and used over many centuries by local communities looking to protect themselves against raiding activity. The 61 km long Wat's Dyke, located in the northern Marches and long considered an early 8th-century predecessor to Offa's Dyke in that area, has recently produced a much older 5th/6th-century radiocarbon date, and as such seems to give a dramatic indication of the long history of the situation faced



rhyw 200–300 mlynedd yn ddiweddarach.

Dealltwriaeth archaeolegol o'r clawdd

3.5 Ymddengys bod y cefndir hanesyddol yn nodi cydestun eglur i Clawdd Offa fel ffin diriogaethol ac amddiffynnol rhwng y Mers a theyrnasoedd Prydain i'r gorllewin. Mae'r henebyn yn dilyn traddodiad o adeiladu cloddiau, ac mae'r ffaith iddo gael ei adeiladu efallai yn adlewyrchu methiant rhannol i lywodraethu cymdogion gorllewinol y Mers trwy gyfrwng camau milwrol yn unig. Ac eto, mae archwiliad archaeolegol manwl o'r clawdd yn parhau i godi llawer o gwestiynau ynglŷn â'i union natur a swyddogaeth.

3.6 Un o'r anawsterau mwyaf amlwg yw nad yw'n ymddangos bod y clawdd erioed wedi bod yn wrthglawdd sy'n rhedeg 'o fôr i fôr' fel a ddisgrifir gan Asser. Mae ymchwil barhaus David Hill ers y 1970au wedi methu ag adnabod estyniad gogleddol i'r Clawdd heibio'r terfyn ymddangosiadol yn Nhreuddyn (ger Wrecsam). Mae'r bwlch 53 km rhwng Bryn Rushock (yn Swydd Henffordd) a Redbrook (yn Swydd Gaerloyw) yn edrych yn gynyddol 'wirioneddol' (o leiaf cyn belled ag y mae absenoldeb arglawdd a ffos barhaus yn y cwestiwn) ac awgrymwyd, hyd yn oed, nad yw'r darn deheuol sy'n sefyll ar ei ben ei hun yn Swydd Gaerloyw yn rhan o Clawdd Offa o gwbl (Hill 2000).

3.7 Mae manylion eraill Clawdd Offa hefyd yn ddyrys. Mae'r henebyn yn dangos amrywiadau sylweddol o ran maint, ffurf strwythurol a chyfosodiad cymharol yr arglawdd a'r ffos — efallai yn codi cwestiwn ynglŷn ag i ba raddau y cafodd ei ddylunio yn unffurf i un pwrpas amddiffynnol. At hyn, mae Clawdd Offa yn unigryw ymhlith gwrthgloddiau Eingl-Sacsonaidd gan ei fod yn croesi tirweddau ucheldir ynghyd â rhai'r iseldir. Mae'r anghysondeb olaf hwn yn deillio yn rhannol o gyfluniad nad yw'n ymddangos ei fod yn dilyn unrhyw egwyddor cynllunio amlwg, er ei fod yn sicr mewn sefyllfa awdurdodol yn wynebu'r gorllewin mewn rhai sectorau. At hynny, mae Frank Noble (1983) wedi dangos bod lleoliad y clawdd yr un mor anghyson mewn perthynas â ffiniau diwylliannol tebygol yr 8fed ganrif; mae'r gwrthglawdd yn rhedeg trwy ganol trefgorddau Eingl-Sacsonaidd cynharach mewn dull sy'n awgrymu nad marciwr tiriogaethol syml yn dangos ffiniau anheddu Seisnig ydoedd.

3.8 Mae gwaith cloddio wedi methu â thafu unrhyw oleuni ar olwg gwreiddiol y clawdd. Efallai fod rhai darnau o'r arglawdd wedi bod â wyneb gorllewinol a oedd wedi ei rhagfurio yn serth gyda thyweirch, er nad oes unrhyw olion argyhoeddiadol o unrhyw balisad neu fur cysylltiedig erioed wedi eu canfod, ac mae ymdrechion i leoli mynedfeydd gwreiddiol (a ddiffinnir fel bwlch yn y ffos) hyd yma wedi bod yn aflwyddiannus (Hill 1991). Rhywbeth arall sydd yr un mor anodd i'w ddeall yw absenoldeb ymddangosiadol isadeiledd ehangach sy'n gysylltiedig â'r

by Offa some 200–300 years later.

Archaeological understanding of the dyke

3.5 The historical background seems to indicate a clear context for Offa's Dyke as a territorial and defensive boundary between Mercia and the British kingdoms to the west. The monument follows an existing tradition of dyke building, and its construction perhaps reflects a partial failure to dominate Mercia's western neighbours by direct military action alone. Yet detailed archaeological examination of the dyke still raises many questions about its exact nature and function.

3.6 One of the most obvious difficulties is that the dyke does not appear to have ever been the earthwork running 'from sea to sea' which Asser describes. Sustained research by David Hill since the 1970s has failed to identify a northern extension of the Dyke beyond its apparent terminus at Treuddyn (near Wrexham), the 53 km gap between Rushock Hill (in Herefordshire) and Redbrook (in Gloucestershire) looks increasingly 'real' (at least as far as the absence of a continuous bank and ditch is concerned), and it has even been suggested that the isolated southern end of the earthwork in Gloucestershire may not be part of Offa's Dyke at all (Hill 2000).

3.7 Other details of Offa's Dyke are also puzzling. The monument shows considerable variations in the size, structural form and relative disposition of the bank and ditch — perhaps questioning the extent to which it was uniformly designed for a single defensive purpose. In addition, Offa's Dyke is unique among comparable Anglo-Saxon earthworks in crossing upland as well as lowland landscapes. This latter anomaly partly results in an alignment which does not seem to follow any obvious planning principle, although certainly occupying a commanding west-facing position in some sectors. Moreover, Frank Noble (1983) has demonstrated that the siting of the dyke is equally inconsistent with respect to probable 8th-century cultural boundaries; the earthwork runs through the middle of earlier Anglo-Saxon townships in a way which suggests it was not a simple territorial marker at the limits of English settlement.

3.8 Excavation has failed to shed clear light on the original appearance of the dyke. Some sections of the bank may have had the western face steeply revetted with turf, though no convincing traces of any associated palisade or wall have ever been identified, and attempts to locate original entranceways (as defined by a break in the ditch) have so far been unsuccessful (Hill 1991). No easier to understand is the apparent absence of wider infrastructure linked to the earthwork (in stark comparison to an ancient



gwrthglawdd (sy'n gwbl wahanol i ffin hynafol megis Mur Rhufeinig Hadrian, gyda'i gestyll milltir, ceirydd a ffyrdd). Mae hyn yn codi ansicrwydd pellach ynglŷn â sut y gallai fod wedi gweithredu fel rhwystr milwrol swyddogaethol effeithiol.

3.9 Mae'r broses o adeiladu'r clawdd efallai yn haws ei deall. Dangosodd yr archaeolegydd arloesol Syr Cyril Fox (1955) yn gredadwy bod cyfluniad yr henebyn wedi ei arolygu rhwng cyfres o bwyntiau rhyngweledol, ac mae gwaith cloddio weithiau wedi dangos torlan farcio ragarweiniol islaw'r prif strwythur (Hill 1986). Mae Hill (1985) yn dadlau, trwy allosod dulliau tebygol gwladwriaeth 8fed ganrif y Mers o ddogfen Eingl-Sacsonaidd ddiweddarach sy'n delio ag adeiladu a chynnal gwrthfuriau 'burh', y byddai'n rhaid i bartion gwaith o'r boblogaeth leol fod wedi adeiladu clawdd graddfa-lawn, gyda phob unigolyn yn gorfod cyfrannu ei lafur i'r prosiect. Yn wir, awgrymwyd y gellir adnabod ymdrechion gwahanol gangiau gweithio yng nghymeriad adeiladol amrywiol y clawdd (Fox 1955).

Swyddogaeth y clawdd

3.10 Mae archaeolegwyr a haneswyr wedi ymdrechu i ddehongli'r corff tystiolaeth hwn sy'n groesddywedadwy ac anghyflawn. Dadleuodd Fox (1955) bod y clawdd yn ffin a gynrychiolai cytundeb a drafodwyd rhwng y Mers a theyrnasoedd Prydain, gan nodi ffin a gytunwyd i'r anheddiad Seisnig. Yn y dull hwn, esboniwyd anghysondebau cyfluniad fel pethau sy'n adlewyrchu arddeliad buddiannau'r Mers neu Brydain ar bwyntiau penodol ar hyd y clawdd, er bod yn henebyn yn rhoi mantais diriogaethol a strategol i'r adeiladwyr o'r Mers yn bennaf. Roedd Fox hefyd yn gweld y clawdd fel ffin barhaol, gyda bylchau mawrion yn yr arglawdd yn cynrychioli manau lle'r oedd y ffin wedi defnyddio rhwystrau naturiol megis afonydd a choetiroedd trwchus.

3.11 Er bod dehongliad Fox yn ymgais glyfar i ddelio gyda chymhlethdod archaeolegol yr henebyn, mae dadansoddiad yn ddiweddar wedi cwestiynu llawer o'i dybiaethau ynglŷn â chyd-destun amgylcheddol ac aneddiadol yr 8fed ganrif. Mae Hill (i'w gyhoeddi) wedi ail-bwysleisio swyddogaeth amddiffynnol sylfaenol y gwrthglawdd, gan awgrymu y cafodd ei adeiladu fel ymateb i achosion penodol o gyrchoedd o deyrnas Powys, ac mae wedi codi cwestiwn ynglŷn â phresenoldeb ffin yn rhedeg 'o fôr i fôr'. Yn yr un modd, mae Noble (1983) yn gweld y clawdd fel llinell amddiffynnol sy'n eistedd yn strategol y tu ôl i wir ffin ddaearyddol ehangiad Seisnig i'r gorllewin, er mwyn ei atgyfnerthu. Mae Stanford (1980) a Wormald (1982) yn fras wedi derbyn y dadansoddiad hwn. Mae Hill (1991) a Noble (1983) o'r farn y byddai'r clawdd wedi bod yn rhwystr

frontier like the Roman Hadrian's Wall with its milecastles, forts and roads), raising a further uncertainty as to how far it can ever have operated as a properly functional military barrier.

3.9 The process by which the dyke was built is perhaps better understood. The pioneering archaeologist Sir Cyril Fox (1955) plausibly showed that the alignment of the monument was surveyed between a series of intervisible points, and excavation has sometimes identified what may be an initial marking out bank beneath the main structure (Hill 1986). Hill (1985) argues, by extrapolating the probable methods of the 8th-century Mercian state from a later Anglo-Saxon document concerning the construction and maintenance of 'burh' fortifications, that the full-scale dyke would have been built by work parties levied from the local population, with each individual required to make a given labour contribution to the project. Indeed, it has been suggested that the efforts of different work gangs can be recognised in the varying constructional character of the dyke (Fox 1955).

Function of the dyke

3.10 Archaeologists and historians have struggled to interpret this contradictory and incomplete body of evidence. Fox (1955) argued for the dyke as a frontier which represented a negotiated agreement between Mercia and the British kingdoms, marking an agreed limit to English settlement. In this way, anomalies of alignment were explained as reflecting the assertion of Mercian or British interest at particular points along the dyke, though the monument mostly gave territorial and strategic advantage to its Mercian builders. Fox also saw the dyke as part of a continuous border, with major gaps in the earthwork representing places where the frontier had made use of natural barriers such as rivers and dense woodland.

3.11 Although Fox's interpretation was a clever attempt to engage with the archaeological complexity of the monument, recent critique has brought into question many of his assumptions about the 8th-century environmental and settlement context. Hill (forthcoming) has re-emphasised the primary defensive function of the earthwork, suggesting that it was constructed as a response to specific incidents of raiding from the kingdom of Powys, and has questioned the existence of a frontier running 'from sea to sea'. Somewhat similarly, Noble (1983) projects the dyke as a defensive line strategically sitting behind and reinforcing the actual geographical frontier of English expansion to the west, and this analysis has been broadly accepted by Stanford (1980) and Wormald (1982). Both Hill (1991) and Noble (1983) take the view that the dyke would have been an effective barrier even as a largely



effeithiol hyd yn oed fel nodwedd di-garsiwn yn bennaf; pan fyddai rhywun yn meiddio i'w groesi, byddai'r difrod i'r gwrthglawdd yn dangos union leoliad y cyrchoedd, gan ganiatáu targedu ymosodiadau dial yn unol â hynny.

3.12 Mae'n bosibl mai 'diben' y clawdd i ryw raddau oedd ei bresenoldeb ffisegol anhygoel yn y dirwedd ac wrth ddangos grym y Mers, a oedd â'r gallu i adeiladu'r clawdd yn y lle cyntaf. Yn yr ystyr hwn, mae'r clawdd yn amddiffynnol nid yn unig fel rhwystr ffisegol cadarn, ond hefyd fel strwythur bwriadol mawr yn symboleiddio gallu gwleidyddol a milwrol y Mers. Efallai fod y clawdd hyd yn oed i fod i atgyfnerthu uchelgais ehangach y Mers trwy efelychu yn fwriadol y math o isadeiledd gwladwriaeth gymhleth a adeiladwyd unwaith gan y Rhufeiniaid, a'r hyn yr oedd Siarlymaen — ar ffurf systemau llywodraethu esblygiadol yr Ymerodraeth Garolingaidd — yn brysur ei ddatblygu yn oes Offa ei hunan. Efallai, felly, nad oedd y clawdd yn cyfleu neges glir i gymdogion gorllewinol y Mers yn unig. Roedd hefyd yn ddatganiad ymwybodol o fyddolddoethineb gwleidyddol i gyfoedion eraill Offa ym Mhrydain ac Ewrop.

Y clawdd ar ôl cyfnod Offa

3.13 Beth bynnag oedd y swyddogaeth a fwriadwyd, mae cloddio archaeolegol wedi dangos mai cyfnod eithaf byr a gafodd Clawdd Offa o ddefnydd sylfaenol. Nid oes tystiolaeth bod y clawdd wedi ei gynnal na bod y ffos erioed wedi ei glanhau a'i hail-dorri ar ôl y gwaith adeiladu gwreiddiol, ac ymddengys yn debygol bod o leiaf rhai o'r mynedfeydd sy'n bodoli nawr wedi eu hagor mewn cyfnod Eingl-Sacsonaidd diweddarach trwy'r hyn a oedd eisoes yn ffin wedi ei gadael. Yn wir, efallai fod rhyfela parhaus yn y Gororau wedi gwneud y Clawdd yn ddarfodedig yn gyflym iawn fel marciwr tiriogaethol a/neu linell amddiffynnol (Hill 2000). O fewn canrif o farwolaeth Offa, fe drechodd cyrchoedd y Llychlynwyr grym y Mers, beth bynnag.

3.14 Er bod Clawdd Offa, efallai, wedi goroesi yn gyflym ei ddiben gwreiddiol, arhosodd y gwrthglawdd anferth fel nodwedd dirweddol amlwg a gwahaniaethol. Mae'r clawdd wedi bod yn ddylanwad allweddol ar y patrwm ymgartrefu sydd wedi datblygu o'i gwmpas, yn ogystal ag ar sut y daeth pobl sy'n byw yn y cyffiniau i feddwl amdanant eu hunain a diffinio eu hunaniaeth ddiwylliannol o bosibl.

3.15 Efallai fod disgrifiad Asser o'r clawdd fel un yn rhedeg 'o fôr i fôr' yn ddim mwy nag addurn rhethregol (o bosibl yn adlais o adroddiadau Rhufeinig o Fur Hadrian), ond mae'r ffaith iddo or-ddweud maint y gwrthglawdd — ac efallai yn wir iddo gredu'r hyn a ysgrifennodd — efallai yn dangos i ba raddau yr oedd y clawdd, hyd yn oed erbyn diwedd y 9fed ganrif, eisoes wedi mabwysiadu math newydd o arwyddocâd diwylliannol.

ungarrisoned feature, with the damage to the earthwork caused by those who dared to cross it at least allowing the location of incursions to be accurately identified and reprisal attacks targeted accordingly.

3.12 It is possible that the 'purpose' of the dyke was in some degree simply its extraordinary physical presence in the landscape and in the demonstration of Mercian power that went with the ability to build it in the first place. In this sense, the dyke is defensive not just as a locally formidable physical obstacle, but also as a deliberately monumental structure symbolising the political and military wherewithal of the Mercian state. It may be that the dyke was even meant to reinforce wider Mercian ambitions by consciously emulating the kind of complex state infrastructure which the Romans had once built, and which — in the shape of the evolving government systems of the Carolingian Empire — Charlemagne was busy developing in Offa's own time. Perhaps, then, the dyke did not just spell out a clear message to Mercia's immediate western neighbours. It was also a conscious statement of political sophistication equally intended for Offa's other contemporaries in Britain and continental Europe.

The dyke after the age of Offa

3.13 Whatever its intended function, archaeological excavation has demonstrated that Offa's Dyke only had a fairly brief phase of primary use. There is no evidence that the dyke was maintained or that the ditch was ever cleaned out and recut after initial construction, and it seems likely that at least some of the entranceways which now exist were made in later Anglo-Saxon times through what was already an abandoned boundary. Indeed, ongoing warfare in the Marches may have very quickly made the Dyke obsolete as a territorial marker and/or defensive line (Hill 2000). Within a century of Offa's death Mercian power was, in any case, destroyed by the Viking invasions.

3.14 While Offa's Dyke may have rapidly outlived its original purpose, the massive earthwork remained a prominent and distinctive landscape feature. As such, the dyke has been a key influence not only on the patterns of settlement which have developed around it, but perhaps also on the way that people living in its vicinity have come to think about themselves and define their cultural identity.

3.15 Asser's description of the dyke as running from 'sea to sea' may be no more than a rhetorical flourish (possibly echoing Roman accounts of Hadrian's Wall), but the very fact that he seems to have exaggerated the scale of the earthwork — and may well have believed what he wrote — perhaps illustrates the extent to which the dyke had, even by the late 9th century, already assumed a new kind of cultural



Yn wir, un posibilrwydd diddorol yw bod presenoldeb y clawdd ei hunan wedi cael dylanwad uniongyrchol ar dwf hunaniaeth genedlaethol Gymreig yn y canrifoedd ar ôl Offa. Efallai fod y llinell artiffisial a roddwyd ar y dirwedd gan y clawdd wedi codi i bwysigrwydd symbolaidd yn gyflym fel datganiad grymus o'r gwahaniaeth ymddangosiadol rhwng popeth i'r gorllewin o Brydain 'Seisnig'. Yn y modd hwn, efallai y bu i Glawdd Offa helpu creu syniad newydd o uniad diwylliannol cyffredin ymhlith pobl a ddaeth i gael eu galw — ac i feddwl amdanynt eu hunain — fel Cymry.

3.16 Yr hyn sy'n sicr wedi ei gadarnhau yn hanesyddol yw bod Clawdd Offa ers amser maith wedi ei weld a'i ddeall fel ffin symbolaidd bwysig. Mae cofnod yn y Rholiau Patent ym 1233 mewn perthynas â Llanffynhonwen yn Swydd Amwythig yn gwahaniaethu rhwng gw~r yn byw 'this side of Offediche' a'r rhai i'r gorllewin (dyfynnwyd gan Noble, 1983, tudalen 76), ac roedd y clawdd weithiau yn llinell wahanu ddiwylliannol bendant yn y dirwedd ganoloesol. Un enghraifft yw ardal Clun, lle roedd y clawdd, erbyn cyfnod y Normaniaid, yn gwasanaethu fel ffin rhan 'Temsed' Arglwyddiaeth Clun lle'r ymgartreffodd nifer sylweddol o drigolion Cymreig. Pan ddynodwyd rhannau o'r clawdd yn ffin rhwng Cymru a Lloegr yn swyddogol yn y 16eg ganrif, efallai nad oedd hyn yn ddim mwy na chydabod yn diriogaethol rôl roedd yr henebyn, mewn termau diwylliannol a symbolaidd, wedi ei chyflawni ers amser maith.

Y clawdd yn y dirwedd esblygiadol

3.17 Mae perthynas ffisegol y clawdd yn y dirwedd hanesyddol yn adrodd stori ddifyr yngl~n â datblygiad ymarferol y gwrthglawdd dros y canrifoedd. Bellach, hon yw'r nodwedd weledol hynaf yn aml yn y dirwedd.

3.18 Ail-ddefnyddiwyd yr henebyn yn aml mewn cyfnodau diweddarach, boed fel elfen o amddiffynfeydd tref ganoloesol Trefyclo, fel torlan amddiffyn rhag llifogydd ar orlifdir afon Hafren, neu fel llwybr lôn neu ffordd. Mewn proses ddinistriol mwy uniongyrchol, a ddechreuodd yn fuan ar ôl adeiladu'r clawdd, mae llawer o rannau o'r clawdd wedi eu gostwng trwy gyfuniad o lefelu bwriadol ac aredig dro ar ôl tro. Yn arbennig yn yr ardaloedd iseldiroedd amaethyddol, lle mae erydiad wedi bod waethaf, mae'r newidiadau yng nghadwraeth y clawdd o un cae i'r nesaf ynddynt eu hunain yn gofnod gwerthfawr o'r newidiadau yn y dirwedd (Everson 1991).

3.19 Er gwaethaf y ffaith nad yw'r clawdd i'w weld mewn rhai manau, yr hyn sy'n amlwg bron bob amser ym mhatrwm y systemau caeau ac aneddiadau gerllaw yw'r graddau yr oedd y gwrthglawdd yn parhau i fod yn nodwedd strwythurol lywodraethol, gyda'r dirwedd ganoloesol a'r dirwedd ddiweddarach leol yn cael ei threfnu o'i amgylch.

significance. Indeed, one intriguing possibility is that the very presence of the monument had a direct influence on the emergence of the Welsh national identity in the centuries after Offa. The artificial line which the dyke indelibly marked on the landscape may have quickly gained symbolic importance as a powerful statement of the apparent separation of all to the west from perceived 'English' Britain. In this way Offa's Dyke perhaps helped to create a novel sense of common cultural unity among peoples who came to be called and to think of themselves as Welsh.

3.16 What is certainly well established historically is that Offa's Dyke has long been seen and understood as an important symbolic boundary. An entry in the Patent Rolls of 1233 relating to Chirbury in Shropshire pointedly distinguishes men living 'this side of Offediche' from those to the west (quoted in Noble 1983, page 76), and the dyke was sometimes an explicit cultural dividing line in the medieval landscape. One example is the Clun area, where by the Norman period the dyke served as the border of the Temsed part of the Clun Lordship which was substantially settled by incoming Welsh inhabitants. The official designation of sections of the dyke as the English/Welsh border in the 16th century perhaps did no more than territorially recognise a role which, in cultural and symbolic terms, the monument had long fulfilled.

The dyke in the evolving landscape

3.17 The physical relationship of the dyke to the historic landscape in which it is now often the oldest visible feature tells a fascinating story about the practical evolution of the earthwork over the centuries.

3.18 The monument was often re-used in later times, whether as an element of the medieval town defences of Knighton, as a flood protection bank on the Severn flood plain, or more humbly as the route of a lane or road. In a more directly destructive process which must have begun soon after it was first built, many sections of the dyke have been reduced by a combination of deliberate levelling and subsequent repeated ploughing. Particularly in the agriculturally favoured lowland areas, where erosion has been greatest, the changes in preservation of the dyke from one field to the next are in themselves a valuable record of the sequence of landscape change (Everson 1991).

3.19 Despite the removal of the dyke in some places, what is nearly always apparent in the patterning of field systems and settlement adjacent to it is the extent to which the earthwork continued to be the dominant structural feature around which the local medieval and later landscape was organised.



Astudiaeth academiaidd o'r clawdd

3.20 Dylanwad pwysig ar sut y mae'r clawdd wedi ei drin a'i weld yn ddiweddar yw'r syniad datblygiadol bod yr henebyn yn bwysig nid yn unig fel nodwedd yn y dirwedd, gyda gwerth swyddogaethol beunyddiol parhaus, ond hefyd ei fod yn arwyddocaol ynddo'i hun fel tystiolaeth unigryw a bregus o'n tarddiad hanesyddol ni.

3.21 Mae presenoldeb Clawdd Offa wedi ei gofnodi yn rheolaidd gan hynafiaethwyr o'r cyfnod Tuduraidd ymlaen, yn cynnwys yn nodedig y sgolor 16eg ganrif Leland (1539) a Pennant, oedd yn ysgrifennu ar ddiwedd y 18fed ganrif (Pennant 1783). Ganol y 19eg ganrif, dechreuodd ymchwilywyr megis Fosbroke (1832), Jones (1856) a Guest (1858) ddatblygu dehongliad mwy manwl o'r clawdd yn seiliedig ar arolwg maes personol. Erbyn diwedd y 19eg ganrif, roedd yr Arolwg Ordnans wedi cofnodi hynt y clawdd yn gywir, ac roedd cloddio archaeolegol hefyd yn dechrau cael ei ddefnyddio i archwilio'r henebyn (Mckenny Hughes 1893).

3.22 Erbyn heddiw, mae'r farn ar y clawdd yn bennaf wedi ei seilio ar raglen o waith arolwg maes yr ymgymerodd Syr Cyril Fox ag ef rhwng 1925 a 1932 (Fox 1955). Ar ôl Fox, ychydig o waith ymchwil a wnaed tan ddechrau'r 1970au, pan gychwynnodd David Hill a'i fyfyrwyr o Adran Efyrdiau Allanol Prifysgol Manceinion ar raglen o arolygu a chloddiau graddfa fechan ar hyd y gwrthglawdd. Mae'r clawdd hefyd wedi ei archwilio mewn nifer o gloddiau 'achub' (ee Allen 1988), ac mae gwaith ymchwil gwerthfawr Frank Noble (1983), ymhlith eraill, wedi dechrau cynnwys archwilio'r cyfoeth o ddeunydd dogfennol canoloesol a diweddarach sy'n gysylltiedig â'r henebyn. Ganol y 1990au roedd darn o Glawdd Offa yn Swydd Gaerloyw yn destun archwiliad archaeolegol manwl gan Wasanaeth Archaeolegol Cyngor Sir Swydd Gaerloyw (Hoyle a Vallender 1997).

Newidiadau yn y dirwedd yn y 19eg a'r 20fed ganrif

3.23 Nid yw cynnydd yn yr ymwybyddiaeth o arwyddocâd hanesyddol Clawdd Offa wedi gwarchod y gwrthglawdd rhag difrod gan ddatblygiad tirwedd modern. Mor gynnar â 1857, roedd aelodau Cymdeithas Archaeolegol Cambrian yn dystion anghymeradwyol pan dynnwyd rhan o'r clawdd i lawr yn ystod ymweliad maes â Lymore. Er bod y darn wedi ei ailadeiladu wedi hynny, roedd difrod o'r fath yn gyffredin o ganlyniad i welliannau amaethyddol y 19eg ganrif. Roedd twf diwydiannol a threfol cynyddol yn y 19eg ganrif hefyd yn arwain at ddinistrio rhannau arwyddocaol o'r clawdd, gyda cholledion nodedig yn gysylltiedig â chwareli carreg galch yn Nyffryn Gwy, a chloddio am lo a datblygiadau diwydiannol

Academic study of the dyke

3.20 A major influence on the treatment and perception of the dyke in recent times has been the emerging idea that the monument is important not just as a landscape feature with ongoing everyday functional value, but that it also has significance in itself as unique and fragile evidence of our historical origins.

3.21 The presence of Offa's Dyke was routinely noted by antiquarians from Tudor times onwards, notably including the 16th-century scholar Leland (1539), and Pennant writing at the end of the 18th century (Pennant 1783). In the mid 19th century, researchers such as Fosbroke (1832), Jones (1856) and Guest (1858) began to develop more detailed interpretations of the dyke based on first hand field survey. By the later 19th century, not only was the course of the dyke accurately recorded by the Ordnance Survey, but archaeological excavation was also beginning to be used to investigate the monument (Mckenny Hughes 1893).

3.22 The present day view of the dyke is substantially founded on the programme of field survey undertaken by Sir Cyril Fox between 1925 and 1932 (Fox 1955). After Fox, little research work was undertaken until the early 1970s, when David Hill and his students from the Extra Mural Department Of Manchester University embarked on an ongoing programme of survey and small-scale excavations along the earthwork. The dyke has also been investigated in a number of 'rescue' excavations (eg Allen 1988), and valuable research by Frank Noble (1983), among others, has begun to explore the wealth of medieval and later documentary material relating to the monument. In the mid 1990s the stretch of Offa's Dyke in Gloucestershire was subject to detailed archaeological survey by the Gloucestershire County Council Archaeology Service (Hoyle and Vallender 1997).

19th and 20th-century landscape changes

3.23 Increasing awareness of the historical significance of Offa's Dyke has not protected the earthwork from damage by modern landscape development. As early as 1857, members of the Cambrian Archaeological Association disapprovingly witnessed the removal of part of the dyke during a field visit to Lymore, and although this section of the monument was subsequently rebuilt, such damage was a common consequence of 19th-century agricultural improvement. Increasing 19th-century industrial and urban growth also resulted in significant destruction of the dyke, with notable losses associated with limestone quarrying in the Wye Valley, and with coal mining and other industrial development in the



eraill yn ardal Wrecsam.

3.24 Gwelodd yr 20fed ganrif ddirywiad parhaus y clawdd. Mae llawer o ddarnau o'r henebyn a gofnodwyd gan Fox yn yr 20au bellach wedi eu dinistrio yn llwyr, ac mae dwysâd amaethyddol a phwysau datblygu ehangach ar ôl y rhyfel wedi cynyddu yn arwyddocaol y broblem o niwed erydiad 'graddol'. Yn erbyn y cefndir hwn, mae dynodi llawer o ddarnau o Clawdd Offa fel Henebyn Rhestredig yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn ddatblygiad pwysig o ran gwarchod y gwrthglawdd yn well.

Creu Llwybr Clawdd Offa

3.25 Efallai mai'r datblygiad mwyaf pellgyrhaeddol yn hanes y clawdd yn ddiweddar fu creu Llwybr Clawdd Offa. Dynodwyd y llwybr yn un o 13 Llwybr Cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr ym 1955, er nas agorwyd ef yn swyddogol tan 1971.

3.26 Mae'r llwybr 293 km yn rhedeg o Brestatyn yn y gogledd i Glogwyni Sedbury yn y de, ac yn dilyn hynt 55 km o'r Clawdd sy'n goroesi, tra'n croesi tirweddau godidog — megis Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd — pan nad yw'n dilyn y gwrthglawdd.

3.27 Mae Llwybr Clawdd Offa wedi gwneud y clawdd yn hygyrch i'r cyhoedd, ac wedi rhoi arwyddocâd newydd i'r henebyn fel coridor mynediad cefn gwlad, atyniad i ymwelwyr ac adnodd mwynderol. Mae hefyd wedi ychwanegu at broblemau erydu ar rai darnau o'r gwrthglawdd.

Crynodeb o bwysigrwydd hanesyddol y clawdd

3.28 Mae datblygiad hanesyddol Clawdd Offa yn dangos henebyn gyda pherthynas allweddol â datblygiad cymdeithasol a gwleidyddol Cymru a Lloegr, ac effaith fwy uniongyrchol dros y 1200 blwyddyn ddiwethaf ar fywydau bob dydd cenedlaethau dirifedi o bobl y Gororau.

3.29 Yn ei gyd-destun 8fed ganrif, gellir gweld Clawdd Offa fel ymgymeriad sy'n cyfuno llwyddiant logistaidd a thechnegol anghyffredin gyda mynegiant ffisegol arloesol o ddyhead gwladwriaeth Eingl-Sacsonaidd. Mae Clawdd Offa yn gynnyrch unigryw o'i amser, ac yn taflu goleuni allweddol ar gyfraniad sylfaenol y Mers ac Offa i ddatblygiad Prydain Eingl-Sacsonaidd, ac ar y prosesau mwy sylfaenol o ddatblygiad daearyddiaeth ddiwylliannol Ewrop fodern yng

Wrexham area.

3.24 The 20th century saw continuing degradation of the dyke. Several sections of the monument recorded by Fox in the 1920s are now completely destroyed, and post war agricultural intensification and wider development pressure have significantly increased the problem of 'gradual' erosion damage. Against this background, the designation of many stretches of Offa's Dyke as a Scheduled Ancient Monument in England and Wales has been a major development in realising improved protection of the earthwork.

Creation of Offa's Dyke Path

